Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 704 (Cy. 119)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 ("Rheoliadau 2010").

Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod—

(a) diffiniad newydd o "relevant metal composite material",

(b) cyfeiriad at ddyfeisiau cysgodi solar yn y diffiniad o "specified attachment", ac

(c) diffiniad newydd o "solar shading device".

Mae rheoliad 2(3) o'r Rheoliadau hyn yn lleihau uchder adeiladau y mae rheoliad 6(1)(c) o Reoliadau 2010 yn gymwys iddynt, o 15m i 11m. Mae rheoliad 6(1)(c) o Reoliadau 2010 yn gymwys pan fo newid sylweddol yn y defnydd o'r adeilad cyfan ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i waith adeiladu gydymffurfio â'r gofynion ym mharagraff B4(1) (lledaeniad tân allanol—waliau) o Atodlen 1 i Reoliadau 2010.

Mae rheoliad 2(4)(a) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod darpariaeth yn rheoliad 7 o Reoliadau 2010 sy'n gwahardd deunydd cyfansawdd metel perthnasol rhag dod yn rhan o'r wal allanol neu o atodyn penodedig pan gynhelir gwaith adeiladu.

Mae rheoliad 2(4)(b) o'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at y rhestr o esemptiadau rhag y gofyniad i ddeunyddiau fodloni'r safon ddosbarthu o ran adwaith i dân yn rheoliad 7(2) o Reoliadau 2010. Mae'n esemptio ceblau ffeibr optig a chydrannau dyfeisiau cysgodi solar ac eithrio'r rhai sydd â'r brif swyddogaeth o ddarparu cysgod neu allwyro golau'r haul megis llenni adlen neu slatiau. Mae'n estyn yr esemptiad ar ddeunyddiau inswleiddio a deunyddiau diddosi a ddefnyddir o dan lefel y ddaear i'r

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

deunyddiau hynny a ddefnyddir hyd at 300mm uwchben y lefel honno. Mae hefyd yn esemptio deunyddiau sy'n ffurfio haen lawr lorweddol uchaf balconi sydd o Ddosbarthiad Ewropeaidd A1fl neu A2fl-s1 ar yr amod bod gan yr haen gyfan swbstrad di-dwll odani.

Mae rheoliad 2(4)(c) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "relevant building" yn rheoliad 7(4) o Reoliadau 2010. Effaith hyn yw bod y gwaharddiad ar ddeunyddiau hylosg yn rheoliadau 6(3) a 7(2) o Reoliadau 2010 bellach yn gymwys i hostelau, gwestai a thai byrddio.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau trosiannol. Ni fydd y newidiadau yn rheoliad 2 yn gymwys pan fo hysbysiad adeiladu neu hysbysiad cychwynnol wedi ei roi i awdurdod lleol, neu pan fo planiau llawn wedi eu hadneuo gydag awdurdod lleol, cyn y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym, a bod y gwaith naill ai wedi dechrau erbyn y diwrnod hwnnw neu ei fod yn dechrau o fewn 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Gellir cael gafael ar gopïau o'r Safon Brydeinig y cyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn ar www.bsigroup.com a gellir cael copïau caled oddi wrth BSI Customer Services, 389 Chiswick High Road, London W4 4AL (rhif ffôn 0345 086 9001). Maent hefyd ar gael i edrych arnynt yn rhad ac am ddim drwy gysylltu â'r Tîm Polisi Rheoliadau Adeiladu yn Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 704 (Cy. 119)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Mehefin 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *19 Mehefin 2025* |
| *Yn dod i rym* | *20 Rhagfyr 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 1(1) o Ddeddf Adeiladu 1984(**1**), a pharagraffau 7, 8 a 10 o Atodlen 1 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu ac â'r personau eraill hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf Adeiladu 1984(**2**).

### Enwi, dod i rym a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2025 a deuant i rym ar 20 Rhagfyr 2025.

(**1**) 1984 p. 55. Diwygiwyd adran 1 gan adran 1(1) i (3) o Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (p. 22) ("Deddf 2004") a chan baragraff 2 o Atodlen 5 i Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 (p. 30) ("Deddf 2022"); diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 1 gan adran 3(2) i (5) o Ddeddf 2004 ac adran 11 o Ddeddf Newid Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 (p. 19); diwygiwyd paragraff 8 o Atodlen 1 gan adran 3(6) a (7) o Ddeddf 2004, adran 40 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29) a pharagraff 83(6) o Atodlen 5 i Ddeddf 2022; ac amnewidiwyd paragraff 10 o Atodlen 1 gan baragraff 83(8) o Atodlen 5 i Ddeddf 2022. Gweler adran 126, fel y'i diwygiwyd gan baragraff 81(2) o Atodlen 5 i Ddeddf 2022, am ystyr "appropriate national authority".

(**2**) Diwygiwyd adran 14(7) gan baragraff 17(3) o Atodlen 5 i Ddeddf 2022.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Adeiladu 2010(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(6) (dehongli)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (a)(iv), hepgorer "and";

(b) yn lle is-baragraff (b), rhodder—

"(b) "relevant metal composite material" means any panel or sheet, having a thickness of no more than 10mm, which is comprised of a number of layers—

(i) two or more of which are made of metal, alloy or metal compound; and

(ii) one or more of which is substantial and is made of a material having a gross calorific value of more than 35 MJ/kg when tested in accordance with BS EN ISO 1716:2018 entitled "Reaction to fire tests for products – Determination of the gross heat of combustion (calorific value)" (ISBN 978 0 580 93554 1) published by the British Standards Institution on 31$^{st}$ July 2018;

and for these purposes a substantial layer is one which is at least 1mm thick or has a mass per unit area of at least 1kg per m$^2$;

(c) "specified attachment" means—

(i) a balcony attached to an external wall;

(ii) a solar shading device (excluding a solar shading device attached to the wall at a height of no more than 4.5 metres above ground level); or

(iii) a solar panel attached to an external wall; and

(d) "solar shading device" means a device attached to the external surface of an external wall for reducing heat gain within a building by shading or deflecting sunlight."

(**1**) O.S. 2010/2214, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1499 (Cy. 275); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Yn rheoliad 6(1)(c) (gofynion yn ymwneud â newid defnydd sylweddol), yn lle “fifteen” rhodder “eleven”.

(4) Yn rheoliad 7 (deunyddiau a chrefftwaith)—

(a) ar ôl paragraff (1), mewnosoder—

“(1A) Building work must be carried out so that relevant metal composite material does not become part of an external wall, or specified attachment, of any building.”;

(b) ym mharagraff (3)—

(i) ar ôl is-baragraff (d), mewnosoder—

“(da) fibre optic cables;”;

(ii) yn is-baragraff (e), ar ôl “ground level”, mewnosoder “or up to 300mm above that level”;

(iii) ar ôl is-baragraff (h), mewnosoder—

“(ha) components associated with a solar shading device excluding components whose primary function is to provide shade or deflect sunlight such as the awning curtain or slats;”;

(iv) ar ddiwedd is-baragraff (i), hepgorer “or”;

(v) ar ddiwedd is-baragraff (j), mewnosoder—

“; or

(k) materials which form the top horizontal floor layer of a balcony which are of European Classification A1fl or A2fl-s1 (classified in accordance with BS EN 13501-1:2018 entitled “Fire classification of construction products and building elements. Classification using test data from reaction to fire tests” (ISBN 978 0 580 95726 0) published by the British Standards Institution on 14th January 2019) provided that the entire layer has an imperforate substrate under it.”;

(c) ym mharagraff (4)(a)(iii), hepgorer “(excluding any room in a hostel, hotel or boarding house)”.

**Darpariaethau trosiannol**

**3.**—(1) Nid yw’r diwygiadau a wneir gan reoliad 2 yn gymwys mewn unrhyw achos pan fo hysbysiad adeiladu neu hysbysiad cychwynnol wedi ei roi i awdurdod lleol, neu pan fo planiau llawn wedi eu hadneuo gydag awdurdod lleol, cyn y diwrnod y daw’r Rheoliadau hyn i rym a phan fo’r gwaith adeiladu y mae’n ymwneud ag ef naill ai—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) wedi dechrau cyn y diwrnod hwnnw, neu

(b) yn dechrau o fewn y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod hwnnw.

(2) Yn y rheoliad hwn—

mae i "awdurdod lleol" yr ystyr a roddir i "local authority" gan adran 126 o Ddeddf Adeiladu 1984(**1**);

mae i "cynlluniau llawn", "gwaith adeiladu", "hysbysiad adeiladu" a "hysbysiad cychwynnol" yr ystyron a roddir i "full plans", "building work", "building notice" ac "initial notice", yn eu trefn, gan reoliad 2(1) o Reoliadau Adeiladu 2010.

*Rebecca Evans*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
17 Mehefin 2025

(**1**) Amnewidiwyd y diffiniad o "local authority" yn adran 126 gan baragraff 14(4)(a) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p. 51) ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 15(3) o Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (c. 19).